



Llanrhystud i Gei Newydd, Ceredigion

Bydd y daith gerdded hon yn mynd â chi i bwyt hanner ffordd swyddogol Llwybr Arfordir Cymru yng Nghei Newydd. Mae wedi'i farcio gan gerflun sy'n dymuno pob lwc i deithwyr ar eu teithiau.

"Yn daith gerdded o ddiddordeb diwylliannol a threftadaeth, dilynwch ôl troed Harri Tudur a Dylan Thomas a darganfyddwch strybedi o dir canoloesol, odyonau calch a thrapiau pysgod hynafol a adeiladwyd gan fynachod Ystrad Fflur. Ewch drwy bentrefi arfordirol wedi'u trwytho mewn hanes morwrol a thref Sioraidd gyda thai wedi'u paentio'n llachar."

NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a Diwedd:

Llanrhystud i Gei Newydd.

Pellter:

14 milltir/22km.

Ar hyd y ffordd...

Mae'r daith gerdded i'r de ar hyd yr arfordir yn cynnwys golygfeydd ysblennydd o'r môr ynghyd â chanrifoedd o hanes, treftadaeth a diwylliant.

Gan ddechrau o barc carafanau Fferm Morfa yn Llanrhystud, cerddwch ar hyd Llwybr Arfordir Cymru gan edrych yn fewndirol tua'r brynau i'r de o Llanrhystud i weld olion dwy fryngaer o'r Oes Haearn – cadwch lygad am weddillion glanfeydd pren ar y lan a oedd unwaith yn gwasanaethu'r odyonau calch gerllaw yng Nghraig-las.

Yr anheddiad nesaf yw pentref bach Llanon. Er nad oes yno harbwr naturiol, mae gan y gymuned hanes morwrol hir. Adeiladwyd llongau ar y traeth yma tan ganol y 1800au ac mae'r fynwent gerllaw yn Llansanffraid yn llawn o gerrig beddau sy'n coffâu morwyr a gollwyd ar y môr.

Gan barhau heibio pentref Aberarth, cadwch lygad am olion y trapiau pysgod canoloesol ar lanw isel. Wedi'u hadeiladu gan fynachod Abaty Ystrad Fflur, tipyn i mewn i'r tir ym Mhonrthdyfendigaid, roedd y waliau isel gyda ffensys plethwaith ar eu pen yn dal pysgod fel roedd y môr yn encilio.

Byddwch yn symud ymlaen wedyn i Aberaeron, a oedd unwaith yn ganolfan adeiladu llongau prysur a phorthladd masnachu. Heddiw mae'r dref harbwr hardd yn brysur gydag ymwelwyr sydd wedi'u denu at ei lleoliad, pensaerniaeth, ac ystod wych o gaffis, tafarndai a siopau.

O Aberaeron, mae Llwybr Arfordir Cymru yn ymuno â Llwybr Dylan Thomas, sy'n rhedeg trwy leoliadau yng Ngheredigion sy'n gysylltiedig â'r ysgrifennwr o fri. Byddwch yn cerdded wrth ochr dau draeth tywodlyd Cei Newydd, wedi'u gwahanu gan bentir Llanina, cyn cyrraedd y dref wyliau fywiog lle bu Thomas yn byw am gyfnod a lle dechreuodd wneud braslun o'i 'ddrama ar gyfer lleisiau', Under Milk Wood.

Angen gwybod:

Ym mhen Llanrhystud y daith gerdded gallwch barcio ym Mharc carafanau Fferm Morfa wrth ymyl y môr. Mae yna hefyd dafarn a siop ym mhentref Llanrhystud. Yng Nghei Newydd mae llefydd parcio a thoiledau ar gael, yn ogystal â dewis da o lefydd bwyta.

Mae gwasanaeth bws Traws Cymru T5 yn cysylltu dwy ben y daith gerdded, gyda stopiau yn Llanon ac Aberaeron ar hyd y ffordd. Ewch i www.trawscymru.info/t5 am fanylion.